

CYLCHLYTHYR DEMOGRAFFEG

Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2018

AMCANGYFRIFON O BOBLOGAETH Y DU, CYMRU A LLOEGR, YR ALBAN A GOGLEDD IWERDDON: CANOL-2017

Cyhoeddwyd [amcangyfrifon canol blwyddyn 2017](#) o boblogaeth gwledydd y DU gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar 28 Mehefin 2018.

Amcangyfrif canol blwyddyn 2017 o boblogaeth Cymru oedd 3.125 miliwn; cynnydd o 0.4 y cant o'i gymharu ag amcangyfrif canol blwyddyn 2016. Amcangyfrifwyd bod mwy o bobl 65 oed a throsodd yn byw yng Nghymru (643,000) na phlant rhwng 0 a 15 oed (559,000).

Amcangyfrif canol blwyddyn 2017 o boblogaeth y DU oedd 66.040 miliwn; cynnydd o 0.6 y cant o'i gymharu ag amcangyfrif canol blwyddyn 2016 (y gyfradd twf hon yw'r isaf ers canol 2004).

Mae gostyngiad mewn mudo rhyngwladol net yng nghanol blwyddyn 2017 wedi cael mwy o effaith ar y gyfradd twf poblogaeth mewn rhai llefydd nag eraill, ac mae cyfradd twf Lloegr wedi gostwng yn fwy na gwledydd eraill y DU (0.64%), a chyfradd Llundain bron wedi haneru i 0.63%.

Mae [data](#) ar gael fesul ardal weinyddol, blwyddyn oedran sengl, rhyw ac elfennau newid yn y boblogaeth, gan gynnwys mudo mewnol.

MUDO RHYNGWLADOL HIRDY MOR

Ym mis Tachwedd cyhoeddodd ONS [Adroddiad Chwarterol Ystadegau Mudo](#). Mae'r gyfres MSQR yn casglu ystadegau mudo a gyhoeddir gan y Swyddfa Gartref, yr Adran Gwaith a Phensiynau ac ONS.

Yn ôl amcangyfrifon yr [Arolwg Teithwyr Rhyngwladol](#) o fudo rhyngwladol hirdymor (hynny yw, dros 12 mis), roedd 5,000 o fewnfudwyr o'r UE yng Nghymru yn 2017 ac 16,000 o fewnfudwyr o wledydd o'r tu allan i'r UE. Roedd 3,000 o bobl wedi allfudo i wledydd yr UE a 4,000 wedi allfudo i wledydd y tu allan i'r UE.

AMCANGYFRIFON AELWYDYDD AR GYFER CYMRU: CANOL 2017

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru amcangyfrifon aelwydydd ar gyfer canol blwyddyn 2017 yng Nghymru ddydd Iau 28 Medi.

Ers canol 1991 mae nifer yr aelwydydd wedi cynyddu 21 y cant o 1.11 miliwn i 1.35 miliwn yng nghanol 2017.

Rhwng canol 2016 a chanol 2017, cynyddodd nifer yr aelwydydd a amcangyfrifwyd yng Nghymru 8,300 (0.6 y cant) i 1.35 miliwn.

Y prif reswm am y cynnydd cyffredinol oedd aelwydydd un person a dau berson, sef y mathau mwyaf cyffredin o aelwydydd yng Nghymru o hyd, ar sail yr amcangyfrifon hyn.

AROLWG CENEDLAETHOL CYMRU

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys dros 11,000 o bobl bob blwyddyn. Fe'i cynhelir gydol y flwyddyn ledled Cymru. Mae'r arolwg yn cynnwys amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio ar bobl a'u hardal leol.

Cyhoeddwyd canlyniadau [Arolwg Cenedlaethol](#) 2017-18 ar 20 Mehefin 2018.

Mae'r prif ganlyniadau ar gyfer y Gymraeg yn dangos bod 19 y cant o oedolion 16 oed a throsodd wedi nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Dywedodd 11 y cant eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl. Dywedodd 12 y cant eu bod yn gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg a'u bod yn ei siarad bob dydd.

Cyhoeddwyd [diweddariad](#) pellach ar y Gymraeg yn benodol ar 10 Hydref 2018. Roedd hyn yn canolbwyntio ar agweddau pobl tuag at y Gymraeg a hyder i siarad yr iaith.

Roedd 68 y cant o siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n hyderus yn siarad Cymraeg. Roedd 72 y cant eisiau siarad yr iaith â siaradwyr Cymraeg eraill, ac roedd 36 y cant yn poeni am gael eu beirniadu am safon eu Cymraeg.

Roedd 86 y cant o bobl yn teimlo bod yr iaith yn destun balchder. Roedd 67 y cant yn teimlo bod angen gwneud mwy i gefnogi'r iaith. Roedd 62 y cant o bobl na allent siarad Cymraeg yn dymuno siarad yr iaith ac roedd 85 y cant o'r rhai â rhywfaint o Gymraeg eisiau siarad yr iaith yn well.

Manylion Cyswllt

Ffôn: 0300 025 0373

E-bost: ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru